


ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i strategaeth Cymraeg 2050:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost Safonau.Standards@gov.wales): 05/02/2025
2. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026.

Y cynnig rydym yn asesu ei effaith yw cyhoeddi *Dealltwriaeth*, Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio newydd Cymru, sef olynydd y strategaeth 10 mlynedd flaenorol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, sef Siarad â fi 2, Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru.

Rydym wedi sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflawni **Mwy na Geiriau: Cynllun Pum Mlynedd (2022-2027)**, sef fframwaith strategol

Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechydd a gofal cymdeithasol ac a nododd ddefnyddwyr gwasanaethau iechydd meddwl fel un o'r grwpiau blaenoriaeth. Ein gweledigaeth ar gyfer "Mwy na Geiriau" yw i'r Gymraeg berthyn a chael ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechydd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, fel bod unigolion yn derbyn gofal sy'n diwallu eu hanghenion iaith heb orfod gofyn amdano, gan arwain at ganlyniadau gwell. Mae Fframwaith Mwy na Geiriau yn ceisio sbarduno cynnydd drwy ganolbwyntio ar dair thema, sef cynllunio a pholisïau Cymraeg gan gynnwys data; cefnogi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu nawr ac yn y dyfodol; a rhannu arferion gorau a dull sy'n galluogi. Wrth wraidd y Fframwaith mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol, sy'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechydd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaethau i ofyn amdanynt.

Mae derbyn triniaeth yn eu mamiaith yn gallu bod yn arbennig o bwysig i bobl sy'n hunan-niweidio neu sydd â theimladau hunanladdol – ac i'r bobl o'u cwrdd. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru ac yn atgyfnerthu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae hi'n hanfodol i wasanaethau sy'n darparu triniaeth ac ymyriadau ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio allu cynnig a darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel y nodir yn Mwy na Geiriau: "Mae'n bwysig i ni gydnabod y cysyniad o angen ieithyddol. Dylai derbyn gwasanaethau'n Gymraeg, yn enwedig pan fyddwn ar ein mwyaf bregus, fod yn rhan annatod o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn."

Amcan(ion) y strategaeth yw lleihau cyfraddau hunanladdiad a gwella canlyniadau i bobl sy'n dioddef oherwydd hunanladdiad a hunan-niweidio. Caiff hyn ei gyflawni drwy gasglu a dadansoddi tystiolaeth a gweithio gyda sefydliadau partner/gwasanaethau a gomisiynir i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio, neu sydd wedi dioddef yn eu sgil. Rhaid i bob sefydliad iechydd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ystyried Safonau'r Gymraeg, a bydd yn ofynnol i wasanaethau a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru eu bodloni hefyd.

Yng nghyd-destun yr uchod, ystyrir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol o ran cyfrannu at Cymraeg 2050, i'r perwyl bod y strategaeth newydd, ynghyd â'r Strategaeth Iechyd Meddwl i Gymru, yn ceisio ehangu a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau. Gyda dyletswyddau'r Gymraeg yn cyd-fynd â'r gwelliannau hyn, gallwn ddisgwyl gweld mwy o wasanaethau yn y Gymraeg, mwy o bolisïau yn y Gymraeg a mwy o ddeunydd hyrwyddo yn y Gymraeg. Fel y cyfryw, mae hyn yn gyson â'r uchelgeisiau i *gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun*.

Ochr yn ochr â datblygu'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio newydd, ac fel rhan o amcan y strategaeth ar weithio trawslywodraethol, rydym

yn sefydlu trefniadau llywodraethu newydd i ategu'r gwaith o oruchwylio a chyflawni'r strategaeth a'r cynllun cyflawni ategol. Bydd y trefniadau llywodraethu hyn yn canolbwyntio ar y Gymraeg (trwy gynnwys mewnbwn gan Uned Polisi'r Gymraeg yn y maes lechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar – gan sicrhau, felly, y bydd modd parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau a gynhwysir yn Mwy na Geiriau).

Noder: Mae'r asesiad effaith hwn yn canolbwyntio'n llwyr ar Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Mae lechyd Meddwl yn ehangach wedi cael ei ystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn y maes lechyd Meddwl a Llesiant fel rhan o'r strategaeth lechyd Meddwl a Llesiant newydd.

3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**

- ♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg¹ (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r blaenoriaethau a nodir yn Mwy na Geiriau ac i sicrhau y cynhwysir ymrwymadau yn y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a fydd yn ategu'r nodau a'r amcanion.

Mae nodau craidd Mwy na Geiriau yn canolbwyntio ar y canlynol:

- ♦ Polisiâu a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys data
- ♦ Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol
- ♦ Rhannu arferion gorau a dull galluogol

Wrth wneud hyn, mae'r strategaeth yn anelu at gael effaith gadarnhaol ar gymunedau Cymraeg. Caiff hyn ei archwilio ymhellach isod.

- ♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Bydd modd i bobl sy'n dysgu Cymraeg gael gafael ar wybodaeth, cymorth a gwasanaethau dwyieithog sy'n berthnasol i hunan-niweidio a hunanladdiad.

- ♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau² sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (ee iechyd a**

¹ Gall y rhain fod yn gymunedau clos yng nghefn gwlad, mewn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn trefi ac mewn rhith-gymunedau nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth.

² Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)

Datblygwyd y strategaeth mewn modd a fydd yn sicrhau bod effeithiau ar siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried yn ystod yr holl gamau sy'n berthnasol i ddatblygu a chyflawni polisïau.

Bydd y strategaeth yn elwa ar nifer o 'egwyddorion craidd' a nodir ar ffurf cwestiynau y bydd yn rhaid inni eu gofyn i ni ein hunain yn ystod pob cam, yn cynnwys:

- **EGWYDDOR GRAIDD:** A yw hyn yn hyrwyddo **tegwch o ran mynediad, profiad a chanlyniadau, heb wahaniaethu?** Dylai gwasanaethau a chymorth fod yn hygyrch ac yn briodol i bawb. Mae hyn yn golygu deall y rhwystrau sy'n wynebu pobl a rhoi systemau angenrheidiol ar waith er mwyn sicrhau y bydd pobl yn cael tegwch o ran profiadau a chanlyniadau ar ôl iddynt gael cymorth. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r cymorth a'r gwasanaethau fod yn addas yn ddiwylliannol ac yn addas i'r oedran, a bydd angen iddynt ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg, pobl ethnig leiafrifol, cymunedau LHDTG+ a phobl â cholled synhwyraidd. Hefyd, bydd angen i'r gwasanaethau ddiwallu anghenion grwpiau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol, fel pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, pobl â phrofiad o fod mewn gofal, pobl niwrowahanol, pobl sy'n dioddef tlodi a phobl sy'n dioddef digartrefedd.
- **EGWYDDOR GRAIDD:** A yw hyn yn cefnogi'r **Gymraeg?** Mae'r Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, ac mae a wnelo ein holl nodau ag ymwreiddio hyn ledled Cymru er mwyn i unigolion gael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion ieithyddol, heb orfod gofyn amdano (y Cynnig Rhagweithiol), gan arwain at ganlyniadau gwell a mwy diogel.
- **EGWYDDOR GRAIDD:** A yw hyn yn adlewyrchu lleisiau rhai sydd â **phrofiad bywyd** ac a yw'n hyrwyddo dull sy'n **canolbwyntio ar yr unigolyn?** Mae hyn yn golygu trin pobl fel unigolion ac fel partneriaid cyfartal wrth gyd-gynhyrchu polisïau, gwasanaethau ac ymatebion. Mae a wnelo hyn â chydabod a pharchu anghenion unigol (ee dewis iaith yr unigolyn - yn cynnwys iaith Arwyddion Prydain a Makaton), gan gyflwyno addasiadau rhesymol er mwyn diwallu anghenion a darparu gofal tosturiol.

Trwy ymlynu wrth yr egwyddorion hyn, mae'r amcanion a nodir yn y strategaeth yn cynnig rhagor o gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg, fel a ganlyn:

Amcan 1 yw datblygu a chynnal prosesau syml ar gyfer casglu, dadansoddi a dehongli data, tystiolaeth a thystiolaeth profiad bywyd; a sicrhau seilwaith cadarn er mwyn gwneud yn siŵr y caiff yr wybodaeth a gesglir ei defnyddio i ddatblygu

polisiâu, cymorth a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnig cyfle i bennu a deall anghenion penodol cymunedau Cymraeg, ynghyd â risgiau o ran hunanladdiad a hunan-niweidio, gan arwain at allu cyflwyno polisiâu a chamau lliniaru.

Amcan 2: Bydd gennym ymateb amlsectoraidd a thrawslywodraethol cydgysylltiedig i'r canlynol:

- Mynd i'r afael â'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunan-niweidio a hunanladdiad;
- Cyfyngu ar fynediad at/cysylltiad â gwybodaeth niweidiol ar-lein ac ar y cyfryngau;
- Cyfyngu ar fynediad at ddulliau a all achosi niwed;
- Pennu a rheoli lleoliadau sy'n destun pryder.

Fel rhan o hyn, byddwn yn sefydlu ac yn cynnal trefniadau llywodraethu a fydd yn hwyluso cyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid ar gyfer lledaenu tystiolaeth a rhannu gwybodaeth i lywio trafodaethau polisi. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys canolbwyntio ar y Gymraeg.

Nod Amcan 3 yw galluogi a grymuso **pawb** i feddu ar yr wybodaeth a'r ymwybyddiaeth ar gyfer adnabod y rhai sydd mewn angen a chynnig cymorth caredig a thosturiol iddynt; a'u helpu i gael gafael ar wasanaethau perthnasol pan fo angen. Byddwn yn sicrhau bod yr hyfforddiant a'r cymorth i gyd ar gael yn y Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill – a bydd hyn yn cael ei hyrwyddo. Trwy gyfrwng y strategaeth newydd a'r cynllun cyflawni ategol, ein bwriad hefyd yw hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a dysgu Cymraeg a chyfleoedd i fagu hyder yn y Gymraeg, gan ategu'r Cynnig Rhagweithiol a chan ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Nod Amcan 4 yw sicrhau y bydd pobl sy'n synio am hunanladdiad neu hunan-niweidio, neu'r rhai sy'n rhoi cefnogaeth iddynt, yn gallu cael gafael ar driniaeth, ymyriadau neu gymorth amserol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan yr holl wasanaethau perthnasol, yn cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol, iechyd meddwl, gofal brys a gofal mewn argyfwng, a'r trydydd sector. Mae'n ofynnol i'r gwasanaethau hyn ymlynu wrth ddyletswyddau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg, a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw ddeunyddiau neu hyfforddiant sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio yn eu galluogi i fodloni'r dyletswyddau hynny. Hefyd, byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw wasanaethau craidd a lunnir yn benodol ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yn hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol. Yn unol â'r dystiolaeth isod, ceir heriau penodol o ran cael gafael ar gymorth iechyd meddwl, yn enwedig cymorth mewn argyfwng, sef un o'r gwasanaethau perthnasol y bydd y strategaeth hon yn dibynnu arno. Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant yn cynnwys ymrwymiad tebyg i gyflawni ymrwymadau Mwy na Geiriau a chynyddu amrywiaeth y gweithlu trwy gyfrwng strategaeth y gweithlu, yn cynnwys cynnig cymorth i siaradwyr Cymraeg.

Yn unol â'r Cynnig Rhagweithiol, rhaid sicrhau cymorth a darpariaeth cyfrwng Cymraeg hollgynhwysfawr ym mhob lleoliad sy'n cynnig help a chymorth i'r rhai sy'n dioddef oherwydd hunanladdiad a hunan-niweidio ledled Cymru. Ochr yn ochr â hyn, dylai lleoliadau penodol sy'n debygol o ddarparu help a chymorth i siaradwyr a chymunedau Cymraeg gael cynlluniau iaith Gymraeg.

Mae Amcan 5 yn anelu at gymhwyso gwasanaethau a aiff ati i gynorthwyo pobl â heriau sy'n cynyddu eu risg o hunanladdiad a hunan-niweidio, gan sicrhau y gallant gynnig cymorth cyfannol, tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd ac addasu polisïau a gwasanaethau er mwyn sicrhau y darperir cymorth cyfwerth; yn cynnwys cymunedau gwledig a chymunedau lle siaredir y Gymraeg yn bennaf. Rhan allweddol o ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cyfrwng Cymraeg (fel y nodir yn Mwy na Geiriau) yw gwella sgiliau a datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o anghenion siaradwyr Cymraeg. Felly, bydd y strategaeth newydd yn anelu hefyd at hyrwyddo gwaith cynllunio'r gweithlu ar gyfer y Gymraeg, yn unol â chanllawiau AaGIG, a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae Amcan 6 yn anelu at sicrhau ymatebion amserol i hunanladdiadau, yn ogystal â sicrhau bod cymorth tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael i bawb sy'n dioddef oherwydd hunanladdiad. Mae hyn yn cyd-fynd â nodau Mwy na Geiriau, sy'n cydnabod y canlynol: Dylai derbyn gwasanaethau'n Gymraeg, yn enwedig pan fyddwn ar ein mwyaf bregus, fod yn rhan annatod o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

I grynhoi, mae byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac ni fydd unrhyw beth a gynnigir yn y strategaeth newydd yn tanseilio hyn nac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau Saesneg yn unig nac yn atal pobl rhag defnyddio'r Gymraeg. Rhaid i bob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol yng Nghymru weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan alluogi pawb sy'n derbyn neu sy'n defnyddio'u gwasanaethau i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl eu dewis personol.

Gweler y testun o dan y pennawd data a thystiolaeth i gael rhestr fanylach a mwy trylwyr o'r camau y byddwn yn eu cymryd i liniaru effeithiau negyddol posibl y strategaeth ar y Gymraeg.

- ♦ **Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg?**

Byddwn yn sicrhau bod adnoddau a hyfforddiant sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio (a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru a'r GIG, neu a ariennir gan sefydliadau'r trydydd sector) yn cael eu rhannu a'u hyrwyddo'n ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr holl wasanaethau a ddatblygir ac a ariennir gan

Lywodraeth Cymru ar gyfer cynorthwyo pobl sydd wedi dioddef oherwydd hunanladdiad a hunan-niweidio, neu sydd wedi cael profedigaeth yn sgil hunanladdiad, yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau mynediad at gymorth yn y Gymraeg. Byddwn yn hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ymhlith y rhai sydd wedi dioddef oherwydd hunanladdiad a hunan-niweidio neu sydd wedi cael profedigaeth yn eu sgil. Mae cyllid grant yn y dyfodol yn hollbwysig o ran ategu'r Gymraeg a hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol mewn perthynas â gweithgareddau i atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae hyn yn cynnwys cyllid a weinyddir trwy gyfrwng Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Gweithrediaeth GIG Cymru. Yn ddiweddar, rhoddodd Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Gweithrediaeth GIG Cymru grantiau bach i ategu gweithgareddau lleol a oedd yn canolbwyntio ar atal a rheoli hunanladdiad a hunan-niweidio. Un o'r gofynion ar gyfer cydymffurfio oedd bod yn rhaid i'r gweithgareddau arfaethedig ddangos y byddai'r gwaith/cynhyrchion yn sensitif i anghenion iaith a diwylliant Cymru, ac y byddent ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- ♦ **Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?**

Darganfuwyd y canlynol yn sgil tystiolaeth a ddeilliodd o adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth a gynhaliwyd gan swyddogion y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi:

- Yn achos cleifion sy'n defnyddio Saesneg fel iaith ychwanegol, yn aml ceir oedi cyn y gallant gael gafael ar y gwasanaethau gofal iechyd sydd ar gael; yn wir, mae ofni na fyddant yn cael eu deall, neu ofni y byddant yn camddeall cyngor meddygol, yn gallu peri i unigolion o'r fath beidio â cheisio cymorth³.
- Hefyd mae rhwystrau iaith yn llesteirio cyfathrebu effeithiol rhwng darparwyr gofal iechyd a chleientiaid, gan arwain at gamddiagnosis, triniaethau amhriodol a/neu golli manylion cynnil mewn gofal cleifion⁴. Yn ei dro, mae hyn yn arwain at ofal is-optimaidd ac anfodlonrwydd â'r gofal a dderbynnir⁵.
- Mae rhwystrau iaith yn amharu ar y modd yr ymlynir wrth driniaethau a'r defnydd a wneir o wasanaethau atal a sgrinio, gan arwain at ragor o oedi cyn y gellir cael gofal amserol. Yn ei dro, gall hyn arwain at ddulliau gwael o reoli clefydau cronig ac, yn y pen draw, at ganlyniadau iechyd gwael⁶.

³ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study - PMC](#)

⁴ [Language proficiency and adverse events in US hospitals: a pilot study - PubMed](#)

⁵ [The need for more research on language barriers in health care: a proposed research agenda - PubMed](#)

⁶ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study - PMC](#)

- Mae iaith yn arbennig o bwysig mewn gofal iechyd meddwl, oherwydd mae'r ddeialog rhwng cleifion ac ymarferwyr yn allweddol wrth gynnal asesiadau diagnostig ac wrth ddarparu triniaeth⁷.
- Hefyd, gwelir bod rhwystrau iaith yn amharu ar ddatblygu cydberthynas therapiwtig rhwng y cleient a'r ymarferydd⁸.
- Er nad yw'r pwynt hwn yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg, mae rhai astudiaethau presennol sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a rhwystrau iaith yn dangos yn gyson bod aelodau lleiafrifoedd ieithyddol yn gwneud llai o ddefnydd o wasanaethau iechyd meddwl o gymharu â grwpiau eraill, ar gyfer lefelau gofid tebyg^{9 10}.
- Gwelir bod defnyddio cyfieithwyr anhyfforddedig neu aelodau teuluol yn gallu arwain at broblemau'n ymwneud â chamddehongli a chyfrinachedd¹¹.
- Er bod y mwyafrif o'r siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn siarad Saesneg, mae ymchwil sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg wedi canfod bod nifer o bobl, pan fyddant mewn sefyllfaoedd llawn straen neu pan fyddant yn agored i niwed, yn teimlo'n fwy cyfforddus ac yn fwy hyderus yn cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg gyda gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl¹². Ymhellach, efallai y bydd pobl sy'n gwbl rugl yn y Saesneg yn colli eu meistrolaeth ar yr iaith ac yn troi at siarad Cymraeg pan fyddant yn flinedig, yn sâl neu o dan straen¹³; mae hyn yn dangos bod angen i'r gwasanaethau fod ar gael yn newis iaith y claf.
- Ar ôl dadansoddi cyfraddau hunanladdiad tybiedig rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, gwelwyd mai yng Ngogledd Cymru y ceid y gyfradd farwolaeth uchaf yn sgil hunanladdiad tybiedig (sef 14.1 fesul 100,000; er, yn ystadegol, nid yw'r ffigur hwn yn wahanol iawn i'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan¹⁴). Hefyd, darganfu gwaith ymchwil gyfraddau hunanladdiad anghymesur o uchel ymhlith y gweithlu ffermio ac amaethyddiaeth¹⁵. Yn achos y ddwy boblogaeth, Cymraeg yw eu hiaith gyntaf yn aml.

Dengys y dystiolaeth pa mor bwysig yw adeiladu gweithlu clinigol amlieithog, yn cynnwys seiciatryddion, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, cwnselwyr proffesiynol trwyddedig a gwirfoddolwyr¹⁶.

⁷ (27) [Language Barriers in Mental Health Care: A Survey of Primary Care Practitioners](#)

⁸ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study - PMC](#)

⁹ Laher N, Sultana A, Aery A, Kumar N. Access to language interpretation services and its impact on clinical and patients outcomes: a scoping review. Toronto: Wellesley Institute: Advancing Urban Health; 2018. tt. 1–78.

¹⁰ Delara M. Social determinants of immigrant women's mental health. Adv Public Health. 2016;2016:1–11. <https://doi.org/10.1155/2016/9730162>.

¹¹ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study | BMC Health Services Research | Full Text \(biomedcentral.com\)](#)

¹² Roberts, G., 1991. The use of the Welsh language in nurse-patient communication within a bilingual health care setting. Thesis MN Anghyhoeddiedig, Prifysgol Cymru, Caerdydd.

¹³ Thomas, G., 1998. The experiences of welsh speaking women in a bilingual maternity service. Thesis M.Sc. Anghyhoeddiedig, Prifysgol Cymru, Caerdydd.

¹⁴ [Adroddiad Blynnyddol: Marwolaethau yn ôl Hunanladdiad Amheus – Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

¹⁵ RRH: Rural and Remote Health article: 8189 - Understanding the factors contributing to farmer suicide: a meta-synthesis of qualitative research

¹⁶ [Overcoming linguistic barriers to accessing mental health services \(diplomaticcourier.com\)](#)

Rhwng Chwefror a Mehefin 2024, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynglŷn â fersiwn ddrafft o'r hyn a elwid o'r blaen yn 'Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio'. Fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol, gofynnwyd cwestiynau safonol yn ymwneud ag effaith y polisi ar y Gymraeg. Wrth ddadansoddi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, gwelwyd yn gyffredinol bod yr ymatebwyr o'r farn bod gan y strategaeth gyfle i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg trwy sicrhau y bydd pobl yn gallu cael gafael ar gymorth ac adnoddau Cymraeg hawdd eu deall.

Fodd bynnag, nodwyd nifer o feysydd y dylid eu gwella, sef:

- Sicrhau y defnyddir termau Cymraeg priodol ar y cyfryngau ac wrth gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol. Rhaid i'r termau fod yn gyson (rhywbeth y nodir ei fod yn flaenoriaeth yn Mwy na Geiriau hefyd).
- Pa mor bwysig yw cydnabod mai yn eu hiaith gyntaf yn unig y gall pobl eu mynegi eu hunain. Gan adleisio'r dystiolaeth y soniwyd amdani eisoes, dywedodd yr ymatebwyr fod hyn yn bwysicach fyth pan ddaw hi'n fater o atal hunanladdiad a hunan-niweidio, oherwydd yn ystod argyfyngau bydd nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn cael anhawster i fynegi eu symptomau a'u hanghenion yn llwyr yn eu hail iaith, a byddant yn fwy parod i dderbyn ymyriadau therapiwtig a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy roi cyfle i bobl gyfathrebu yn eu dewis iaith, bydd modd lleihau'r siawns y bydd camgymeriadau'n digwydd yn y driniaeth. O ganlyniad, yn ogystal â sicrhau bod **gweithwyr proffesiynol yn cael eu hannog i fod yn ymwybodol o risgiau hunanladdiad, ac ymyrryd pan fo angen, mae angen iddynt fod yn ymwybodol o iaith hefyd.**
- Mae mynediad at gymorth a gwybodaeth Gymraeg sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn parhau i beri anhawster i nifer o bobl; **ac mewn ambell gyd-destun, ni fydd help ar gael bob amser yn y Gymraeg** (efallai na fydd mentrau neu wasanaethau cymorth cenedlaethol a roddir ar waith ledled y DU yn darparu adnoddau yn y Gymraeg a'r Saesneg bob amser). Dywedodd yr ymatebwyr fod diffyg siaradwyr Cymraeg rhugl yn effeithio ar y gallu i gynnig gwasanaethau amserol.
- Mae angen sicrhau bod blaenoriaethau Mwy na Geiriau yn cael eu hymgorffori yng nghamau gweithredu'r strategaeth a'r cynllun cyflawni ategol.

Er mwyn atal y risgiau a'r effeithiau negyddol a nodwyd, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod y polisïau, y camau gweithredu, y gwasanaethau a'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â hunan-niweidio a
-

hunanladdiad yng Nghymru yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg a Cymraeg 2050 sy'n nodi ein dull hirdymor o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod adnoddau a hyfforddiant sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio (a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru a'r GIG ac a ariennir gan wasanaethau'r trydydd sector) yn cael eu rhannu a'u hyrwyddo'n ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr holl wasanaethau a ddatblygir ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynorthwyo pobl sydd wedi dioddef oherwydd hunanladdiad, neu sydd wedi cael profedigaeth yn sgil hunanladdiad, yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau mynediad at gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Cynnal gwaith sylfaenol / asesiad o anghenion er mwyn pennu capasiti a gallu presennol gweithlu'r Gwasanaeth Cyngori a Chyswllt Cenedlaethol, sy'n mynd ati i gynorthwyo'r rhai sy'n dioddef oherwydd hunanladdiad neu sydd wedi cael profedigaeth yn sgil hunanladdiad.
- Sicrhau bod asesiadau o anghenion yn rhoi lle pwysig i'r Gymraeg er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth hunan-niweidio i Gymru.
- Sicrhau y canolbwyntir ar y Gymraeg fel rhan o'r gwaith cyflawni a gweithredu parhaus.

Mae gan wasanaethau iechyd hefyd ddyletswydd i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae cynllun Mwy na Geiriau wedi'i osod yn y cyd-destun bod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom ac y dylid ymgorffori'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael gofal sy'n diwallu eu hanghenion ieithyddol, heb iddynt orfod gofyn amdano (y Cynnig Rhagweithiol). Mae ategu a meithrin sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol yn thema allweddol yng nghynllun newydd Mwy na Geiriau. Rhywbeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r nod hwn yw'r ffaith bod y strategaeth newydd yn cynnwys ymrwymiad i hyrwyddo hyfforddiant a chyfleoedd dysgu mewn perthynas â'r Gymraeg wrth fynd ati i sefydlu, comisiynu a gwella gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys yr hyfforddiant a'r cymorth a gynigir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n anelu at wella sgiliau Cymraeg y rhai sydd eisoes yn siarad Cymraeg a gwella'u hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle, yn ogystal ag Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog – sef hyfforddiant a gafodd ei ddatblygu ac a gaiff ei arwain gan Academi Wales. Hefyd, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ymhlith y rhai sy'n cynorthwyo pobl sydd wedi dioddef oherwydd hunanladdiad a hunan-niwed, neu sydd wedi cael profedigaeth yn sgil hunanladdiad a hunan-niwed, er enghraifft trwy hyrwyddo Cwrs Cwrteisi Cymraeg (a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol).

- ♦ **Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Nid yw'r rhan fwyaf o'r ymchwil a nodir ac y cyfeirir ato yn yr adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth (y soniwyd amdano yn yr adran flaenorol) yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg; yn hytrach canolbwyntir ar gyfranogwyr sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, a daw'r mwyafrif ohonynt o grwpiau ethnig lleiafrifol. O'r herwydd, er bod rhwystrau iaith yn broblem, mae'n bosib bod gwahaniaethau diwylliannol eraill hefyd yn effeithio ar fynediad at ofal a thriniaeth briodol yn yr astudiaethau hyn. Er mwyn gallu deall yn well beth yw effaith y Gymraeg ar dderbyn cymorth priodol ac effeithiol ar gyfer hunan-niweidio a hunanladdiad, mae angen cynnal rhagor o ymchwil. Gellir mynd i'r afael â hyn trwy gyfrwng Amcan 1 y strategaeth.

Trwy ddefnyddio'r system Gwyliadwriaeth Amser Real Hunanladdiad Tybiedig (RTSSS), a reolir gan lechyd Cyhoeddus Cymru, ein nod yw casglu data'n ymwneud â dewis iaith pob unigolyn sy'n marw oherwydd hunanladdiad tybiedig. Bydd hyn hefyd yn ategu ffocws parhaus ar y Gymraeg.

♦ **Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?**

Ochr yn ochr â'r strategaeth, byddwn yn datblygu cynllun cyflawni. Bydd y cynllun hwn yn nodi gweithgareddau manwl y byddwn yn eu cyflawni er mwyn gwireddu ein hamcanion.

Ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth, byddwn yn datblygu fframwaith canlyniadau a fydd yn cynnwys pennu amryfal ddangosyddion y gallwn eu defnyddio i fonitro cynnydd. Byddwn yn ymhelaethu ar y fframwaith hwn yn ystod cam gweithredu cynnar y Strategaeth er mwyn pennu dulliau casglu data a rhagor o ffynonellau data. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso blynyddol, a fydd yn mesur perfformiad a chanlyniadau ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion.